Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr:

Parth 4 **Matrics Aeddfedrwydd Ymgysylltu**

Prif Berchennog Cyfrifol: **Gill Harris, Cyfarwyddwr Gweithredol Nyrsio a Bydwreigiaeth, Dirprwy Brif Weithredwr**

Aelod Annibynnol Cyswllt: **Eifion Jones**

Lefelau Cynnydd ➡ **Elfennau Allweddol** ⬇	**0 – Dim Cynnydd**	**1 – Lefel Sylfaenol** Derbyniwyd yr egwyddor ac ymrwymiad i weithredu	**2 – Cynnydd Cynnar** Cynnydd cynnar ar y gweill	**3 - Canlyniadau** Cyflawniadau cychwynnol	**4 - Aeddfedrwydd** Cyflawni canlyniadau cyson	**5 - Enghreifftiol** Eraill yn dysgu oddi wrth ein cyflawniadau cyson
Rheoli Ymgysylltiad [deilliant 1] [deilliant 2] [deilliant 4]		Gall gweithgareddau ymgysylltu â chleifion, y cyhoedd, staff a rhanddeiliaid fodoli, ond maent yn achlysurol ac nid ydynt yn cael eu cydlynu.	Defnyddir Gweithgareddau Ymgysylltu yn rheolaidd i lywio asesiadau effaith, gan gynnwys Asesiadau Effaith Cydraddoldeb (EQIA).	Cydlynir Gweithgareddau Ymgysylltu i alluogi cysondeb a dysgu ac adborth ehangach i sefydliadau partner sydd mewn newid gwasanaeth sylweddol neu ddatblygu strategaeth, megis y Strategaeth Gwasanaethau Clinigol neu Gynllun Tymor Canolig Integredig (IMTP).	Mae mecanweithiau ar waith i sicrhau bod ymgysylltiad yn gyson ar draws yr holl nodweddion gwarchodedig (gan gynnwys SED). Mae canlyniadau ymgysylltu yn cael eu coladu'n ganolog i ganiatáu ar gyfer y dysgu ehangach a chyflwynir tystiolaeth o'r ymgysylltu a'r adborth parhaus gyda'r holl waith datblygu strategaeth, newid gwasanaeth sylweddol a chynlluniau blynyddol.	Mae gweithgareddau ymgysylltu parhaus yn sbardun ar gyfer newid a dysgu; mae ymgysylltu wedi'i ymgorffori ym mhob papur newid. Mae gweithgarwch ymgysylltu yn cael ei fonitro ar gyfer dysgu parhaus ac mae'n cwmpasu'r holl nodweddion gwarchodedig (gan gynnwys SED), partneriaid a sefydliadau'r trydydd sector ar draws y lledaeniad daearyddol cyfan, gan ystyried gallu Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr (BIPBC) i ddylanwadu ar bolisi a blaenoriaethau cenedlaethol.
Ymgysylltu â Chleifion a Chyfranogiad [deilliant 1]		Mae cyfranogiad cleifion yn gyfyngedig. Cyfleoedd cyfyngedig i gyfathrebu â chleifion a derbyn adborth.	Mae rhywfaint o ddealltwriaeth o'r budd a ddaw yn sgil ymgysylltu â chleifion. Mae ymddygiad cydweithredol (rhoi gwybodaeth, gwrando, cynnwys, ymgysylltu) yn datblygu ond nid yw'n gyffredin eto.	Deellir manteision ymgysylltu â chleifion ar draws y Bwrdd Iechyd. Mae ymddygiad cydweithredol yn gyffredin.	Mae manteision ymgysylltu â chleifion, cyd-gynhyrchu a chyd-gynllunio newid gwasanaeth yn cael ei ddeall a'i ymgorffori ar draws y Bwrdd Iechyd. Caiff ymddygiad cydweithredol ei ymgorffori o fewn y Bwrdd Iechyd.	Mae manteision ymgysylltu â chleifion, cyd-gynhyrchu a chyd-gynllunio newid gwasanaeth yn cael ei ddeall a'i ymgorffori yn effeithiol ac yn gyson ar draws y Bwrdd Iechyd. Caiff ymddygiad cydweithredol ei ymgorffori o fewn y Bwrdd Iechyd.

			Defnyddir rhai offer i ymgysylltu â chleifion yn gyhoeddus (e.e. cyfryngau cymdeithasol a digidol). Mae ymgysylltiad parhaus yn digwydd ar gyfer newid gwasanaeth sylweddol, gan arwain at ymgynghoriad cyhoeddus lle bo angen.	Defnyddir nifer o offer yn rheolaidd i ymgysylltu â chleifion a gwrando arnynt. Mae ymgysylltiad parhaus â chleifion yn digwydd ar gyfer pob newid gwasanaeth sylweddol. Mae gweithgareddau ymgysylltu â chleifion yn dod yn gyffredin yn y mwyafrif o feysydd. Gall BIPBC gyflwyno tystiolaeth am ddeilliannau ymgysylltu â chleifion a chyfranogiad yn rhannol.	Defnyddir ystod o offer yn gyffredin i ymgysylltu â chleifion, i wrando ar gleifion ac i dderbyn adborth gan gleifion. Mae ymgysylltiad parhaus â chleifion yn digwydd ar gyfer pob newid gwasanaeth sylweddol (a llawer o newidiadau gwasanaeth nad ydynt yn arwyddocaol), gan gyd-gynhyrchu deilliannau. Mae ymgysylltu â chleifion yn barhaus ac wedi'i ymgorffori yn y ffordd mae'r bwrdd iechyd yn gweithredu. Gall BIPBC gyflwyno tystiolaeth am ddeilliannau ymgysylltu â chleifion a chyfranogiad mewn prosesau ffurfiol.	Defnyddir ystod eang o offer fel ffordd ymgorfforedig i ymgysylltu â chleifion, i wrando ar gleifion, i dderbyn adborth yn rheolaidd ac i gynnwys cleifion wrth gyd-gynhyrchu a chyd-ddylunio gwasanaethau, yn ogystal â gwrando ar farn cleifion am wasanaethau cyfredol. Mae'r holl newidiadau gwasanaeth (sylweddol a heb fod yn arwyddocaol) yn cael eu cyd-gynhyrchu gyda chleifion, gyda chyfranogiad ac ymgysylltiad parhaus wedi'u hymgorffori ar draws y Bwrdd Iechyd. Mae cyfranogiad parhaus cleifion yn rhan annatod o sut mae'r bwrdd iechyd yn gweithredu. Mae ymgysylltu â chleifion a chyfranogiad yn cwmpasu'r holl feysydd daearyddol, anghenion diwylliannol ac ieithyddol yn gyson, ac yn sicrhau cyfranogiad plant a phobl ifanc a phob un o'r nodweddion gwarchodedig. Gall BIPBC gyflwyno tystiolaeth am ddeilliannau cyfranogiad ac ymgysylltu â chleifion ar bob lefel o'r sefydliad a gall pob arweinydd nodi deilliannau cadarnhaol o ymgysylltu â chleifion.
Ymgysylltu â'r Cyhoedd a Chyfranogiad [deilliant 1] [deilliant 3]		Mae cyfranogiad y cyhoedd yn gyfyngedig ac yn achlysurol. Cyfleoedd cyfyngedig i gyfathrebu â dinasyddion ac i dderbyn adborth dwy ffordd. Mae ymgynghoriad cyhoeddus ffurfiol yn digwydd ar gyfer newid	Cydnabyddir y manteision a ddaw yn sgil cyfranogiad y cyhoedd. Mae ymddygiad cydweithredol (rhoi gwybodaeth, gwrando, cynnwys, ymgysylltu) yn datblygu ond nid yw'n gyffredin eto.	Deellir y manteision a ddaw yn sgil cyfranogiad y cyhoedd yn dda ar draws y Bwrdd Iechyd. Mae ymddygiad cydweithredol yn gyffredin ar draws gwasanaethau.	Deellir manteision cyfranogiad cyhoeddus parhaus yn dda ac fe'i hymgorfforir ar draws y Bwrdd Iechyd. Cydnabyddir manteision cyd-gynhyrchu a chyd-gynllunio newid gwasanaeth ac mae rhywfaint o dystiolaeth o gyd-	Deellir manteision ymgysylltiad cyhoeddus parhaus yn dda ac fe'i hymgorfforir ar draws y Bwrdd Iechyd, gan arwain at gyd-gynhyrchu a chyd-gynllunio newidiadau gwasanaeth cyson.

		gwasanaeth sylweddol, lle bo angen.	Mecanweithiau cyfyngedig ar waith i ymgysylltu â'r cyhoedd. Mae ymgysylltiad cyhoeddus parhaus yn digwydd ar gyfer newid gwasanaeth sylweddol, gan arwain at ymgynghoriad cyhoeddus lle bo angen.	Defnyddir cyfres o offer i ymgysylltu â'r cyhoedd ac i wrando arnynt. Mae ymgysylltiad cyhoeddus parhaus yn digwydd ar gyfer newidiadau gwasanaeth sylweddol. Mae ymgysylltiad cyhoeddus parhaus yn digwydd i gael adborth ar wasanaethau a blaenoriaethau cyfredol. Mae gweithgareddau cyfranogiad cleifion a'r cyhoedd yn dod yn gyffredin yn y mwyafrif o feysydd.	gynhyrchu / cyd-gynllunio o ran newid gwasanaeth. Ymgorfforir ymddygiad cydweithredol o fewn y Bwrdd Iechyd. Defnyddir cyfres o offer yn gyffredin i ymgysylltu â'r cyhoedd, i wrando ar y cyhoedd ac i dderbyn adborth rheolaidd wrth y cyhoedd. Mae ymgysylltiad cyhoeddus parhaus yn digwydd ar gyfer pob newid gwasanaeth sylweddol, gan gyd-gynhyrchu deilliannau. Mae ymgysylltiad cyhoeddus parhaus yn digwydd i gael adborth ar wasanaethau a blaenoriaethau cyfredol, gan gyd-gynhyrchu deilliannau. Mae gweithgareddau cyfranogiad y cyhoedd yn gyffredin yn y mwyafrif o feysydd yn BIPBC.	Ymgorfforir ymddygiad cydweithredol o fewn y Bwrdd Iechyd. Defnyddir ystod eang o offer ymgorfforedig i ymgysylltu â'r cyhoedd, i wrando ar y cyhoedd ac i dderbyn adborth rheolaidd wrth y cyhoedd i hwyluso cyd-gynhyrchu a chyd-gynllunio newidiadau gwasanaeth cyson. Mae'r holl newidiadau gwasanaeth (sylweddol a heb fod yn arwyddocaol) yn cael eu cyd-gynhyrchu gyda'r cyhoedd, gyda chyfranogiad ac ymgysylltiad parhaus wedi'u hymgorffori ar draws y Bwrdd Iechyd. Mae cyfranogiad parhaus y cyhoedd yn rhan annatod o sut mae'r bwrdd iechyd yn gweithredu. Mae ymgysylltiad a chyfranogiad yn cwmpasu'r holl feysydd daearyddol, anghenion diwylliannol ac ieithyddol yn gyson, ac yn sicrhau cyfranogiad plant a phobl ifanc â phob un o'r nodweddion gwarchodedig.
Ymgysylltu â Staff a Chyfranogiad [deilliant 5] [deilliant 6 ????]		Mae cyfranogiad gyda staff ar wella sefydliadol yn gyfyngedig. Mecanweithiau cyfyngedig ar waith ar gyfer adborth ffurfiol ac anffurfiol i staff.	Mae rhywfaint o ddealltwriaeth o'r gwerth a ddaw yn sgil cyfranogiad staff. Mecanweithiau ar waith ar gyfer adborth ffurfiol ac anffurfiol i staff. Mae cyfranogiad, ymgysylltiad ac ymddygiad gwrando staff yn datblygu ond nid yw'n gyffredin eto.	Mae nifer o fecanweithiau cyfranogiad staff ar waith - ffurfiol ac anffurfiol. Mae mecanweithiau ar waith ar gyfer adborth ffurfiol ac anffurfiol i staff. Caiff nifer o benderfyniadau eu gwneud gyda mewnbwn staff. Mae deilliannau a rennir yn dechrau cael eu datblygu.	Mae nifer o fecanweithiau cyfranogiad staff ar waith - ffurfiol ac anffurfiol. Mae mecanweithiau ar waith ar gyfer adborth ffurfiol ac anffurfiol i staff, gyda thueddiadau a themâu yn cael eu nodi a'u gweithredu. Caiff nifer o benderfyniadau eu gwneud gyda mewnbwn staff. Mae deilliannau a rennir yn dechrau cael eu datblygu.	Mae nifer o fecanweithiau cyfranogiad staff ar waith - ffurfiol ac anffurfiol. Mae mecanweithiau ar waith ar gyfer adborth ffurfiol ac anffurfiol i staff. Caiff pob penderfyniad ei wneud gyda mewnbwn staff. Mae deilliannau a rennir ar waith. Mae'r Bwrdd Iechyd yn cyfaddawdu er budd cyffredinol y sefydliad, ac yn cydbwyso

			Mae negeseuon wrth Brif Swyddog Gweithredol ac arweinyddiaeth y Bwrdd Iechyd yn digwydd.	Mae negeseuon wrth Brif Swyddog Gweithredol a thîm arweinyddiaeth y Bwrdd Iechyd yn digwydd ac yn dylanwadu ar ddiwylliant ac ymddygiad y Bwrdd Iechyd.	Mae negeseuon rheolaidd wrth Brif Swyddog Gweithredol a thîm arweinyddiaeth y Bwrdd Iechyd yn digwydd ac yn dylanwadu a llunio diwylliant ac ymddygiad y Bwrdd Iechyd. Mae staff wedi'u grymuso ac yn teimlo eu bod yn gallu dylanwadu ar broses gwneud penderfyniadau'r Bwrdd Iechyd.	safbwyntiau staff a rhanddeiliaid eraill. Mae negeseuon rheolaidd a chyson wrth Brif Swyddog Gweithredol a thîm arweinyddiaeth y Bwrdd Iechyd yn digwydd ac yn dylanwadu a llunio diwylliant ac ymddygiad y Bwrdd Iechyd. Mae staff wedi'u grymuso ac yn gallu dylanwadu ar broses gwneud penderfyniadau'r Bwrdd Iechyd.
Ymgysylltu â Phartneriaid a Chyfranogiad [deilliant 3] [deilliant 4]		Mae cyfranogiad partneriaid a rhanddeiliaid ar draws ffiniau yn gyfyngedig.	Mae rhywfaint o ddealltwriaeth o randdeiliaid. Nid yw ymddygiad cydweithredol yn gyffredin eto. Mae dealltwriaeth y dylai partneriaid ddylanwadu ar broses gwneud penderfyniadau'r Bwrdd Iechyd. Mae ymddygiad cydweithredol (rhoi gwybodaeth, gwrando, cynnwys, ymgysylltu) yn datblygu ond nid yw'n gyffredin eto. Mae protocolau priodol yn bodoli ar gyfer rheoli newid brys / sylweddol a thrafod gyda CIC er mwyn dod i farn gonsensws ynghylch a yw cynigion yn gyfystyr â'r angen am ymgysylltiad pellach neu ymgynghoriad cyhoeddus mwy ffurfiol.	Mae dealltwriaeth o randdeiliaid a'u safbwyntiau. Mae ymddygiad cydweithredol yn cael ei ymgorffori. Mae nifer o benderfyniadau'n cael eu gwneud ar draws ffiniau. Mae deilliannau a rennir yn dechrau cael eu datblygu. Mae protocolau priodol yn cael eu defnyddio'n gyson ar gyfer rheoli newid brys / sylweddol a thrafod gyda CIC er mwyn dod i farn gonsensws ynghylch a yw cynigion yn gyfystyr â'r angen am ymgysylltiad pellach neu ymgynghoriad cyhoeddus mwy ffurfiol.	Mae dealltwriaeth o randdeiliaid a'u safbwyntiau. Mae ymddygiad cydweithredol yn gyffredin. Mae pob penderfyniad perthnasol yn cael ei wneud ar draws ffiniau. Mae deilliannau a rennir yn gyffredin. Mae rolau, cyfrifoldebau a chymhellion yn adlewyrchu'r angen i gydweithio, gan arwain at ffyrdd newydd o weithio. Mabwysiedir dull partneriaeth priodol rhwng BIPBC a CIC ar gyfer rheoli newid brys / sylweddol er mwyn dod i farn gonsensws ynghylch a yw cynigion yn gyfystyr â'r angen am ymgysylltiad pellach neu ymgynghoriad cyhoeddus mwy ffurfiol.	Mae'r Bwrdd Iechyd yn cyfaddawdu er budd cyffredinol y sefydliad, ac yn arwain y ffordd o ran trawsnewid cymunedau. Mae ymddygiad cydweithredol yn gyffredin. Mae partneriaid a rhanddeiliaid yn cyfrannu at benderfyniadau a busnes y Bwrdd Iechyd. Mae pob penderfyniad perthnasol yn cael ei wneud ar draws ffiniau. Mae deilliannau a rennir wedi'u hymgorffori. Mae rolau, cyfrifoldebau a chymhellion yn adlewyrchu'r angen i gydweithio, gan arwain at ffyrdd newydd o weithio. Mae gan BIPBC a CIC berthynas symbiotig i sicrhau bod pob diddordeb lleol yn cael sylw fel rhan o ymgysylltiad a chyfranogiad parhaus, a bod cyfrifoldebau o ran cydraddoldeb, amrywiaeth a'r Iaith Gymraeg yn cael eu diwallu.
Rheoli perthynas partneriaeth a rhanddeiliaid		Mae partneriaethau ffurfiol a statudol yn cael eu cydnabod a'u gwasanaethu gan y Bwrdd Iechyd.	Mae gan rai unigolion wybodaeth am Reoli	Mae dealltwriaeth gyffredinol o fanteision a phwysigrwydd Rheoli	Mae yna ymrwymiad i welliant parhaus mewn gweithio mewn partneriaeth, gan gydnabod y	Mae ffocws arweinyddiaeth ar ddysgu gwersi trwy weithio gyda rhanddeiliaid a gweithio mewn

[deilliant 2] [deilliant 3] [deilliant 4] [deilliant 5]			Perthynas Partner a Rhanddeiliaid. Mae rhywfaint o ddefnydd o offer a phrosesau i reoli perthnasoedd. Mae'r ffocws mewnol ar fanteision (neu fel arall) gweithgareddau gweithrediadol.	Perthynas Partner a Rhanddeiliaid. Mae cefnogaeth ganolog yn sicrhau bod offer a phrosesau yn cael eu defnyddio'n gyson i reoli perthnasoedd a manteision gweithio mewn partneriaeth. Mae rheoli perthnasoedd yn rhagweithiol ar waith gan rai rhanddeiliaid a sefydliadau partner, gan gynnwys rheolwr perthynas a enwir. Mae ffocws allanol ar fanteision cydfuddiannol gweithgareddau partneriaeth i bob sefydliad.	gallai rhanddeiliaid unigol fod yn gysylltiedig â phartneriaid lluosog a throsglwyddo eu profiadau. Mae'r Bwrdd a'r cyfarwyddiaethau wedi cwblhau ymarferion mapio rhanddeiliaid i ddarparu darlun cyfan o ddylanwadau cymharol yr holl randdeiliaid a phartneriaid. Defnyddir offer a phrosesau i integreiddio gwybodaeth a chael mewnwelediad i weithgareddau partneriaeth a gweledigaeth a rennir. Mae ffocws allanol ar fanteision cydfuddiannol gweithgareddau partneriaeth er mwyn sicrhau bod pawb yn elwa.	partneriaeth, sy'n cael ei ddefnyddio'n rheolaidd i wirio effeithiolrwydd partneriaethau unigol a pherthnasoedd rhanddeiliaid er mwyn llywio asesiadau risg proffwydol. Gan weithio y tu hwnt i brosiectau unigol, mae yna ymrwymiad gwirioneddol i Reoli Perthynas Partner a Rhanddeiliaid, sydd wedi'i ymgorffori fel egwyddor sefydliadol gweithredol.
Hyrwyddo Gwaith y Sefydliad [deilliant 4]		Mae nifer gyfyngedig o straeon newyddion cytbwys yn cael eu hyrwyddo'n rhagweithiol. Rheolaeth ragweithiol gyfyngedig ar berthnasoedd â rhanddeiliaid a dylanwadwyr allweddol. Mae gan arweinwyr y Bwrdd Iechyd ac arweinwyr clinigol hyfforddiant cyfyngedig yn y cyfryngau. Prin yw'r defnydd o gyfryngau cymdeithasol i hyrwyddo gwaith meysydd gwasanaeth a'r tîm arweinyddiaeth.	Cydnabyddir yr angen i hyrwyddo straeon newyddion cytbwys. Hyrwyddir nifer gyson o straeon newyddion cytbwys yn rhagweithiol. Mae'r angen i reoli perthnasoedd â rhanddeiliaid allweddol yn rhagweithiol yn cael ei gydnabod ac yn dechrau cael ei weithredu. Mae arweinwyr y Bwrdd Iechyd ac arweinwyr clinigol wedi cael hyfforddiant cyfryngau amrywiol. Mae rhywfaint o ddefnydd o gyfryngau cymdeithasol i hyrwyddo gwaith meysydd	Mae straeon newyddion cytbwys yn cael eu rheoli'n rhagweithiol. Mae straeon newyddion cytbwys yn cael eu hyrwyddo'n aml. Mae'r angen i reoli perthnasoedd â rhanddeiliaid allweddol yn rhagweithiol wedi'i sefydlu yn y Bwrdd Iechyd. Mae arweinwyr y Bwrdd Iechyd ac arweinwyr clinigol wedi cael hyfforddiant cyfryngau at lefel gyson ac uchel. Mae cynllun cyfryngau cymdeithasol clir ar waith, i sicrhau defnydd o gyfryngau cymdeithasol i hyrwyddo gwaith meysydd	Mae straeon newyddion cytbwys yn cael eu rheoli'n rhagweithiol. Mae straeon newyddion cytbwys yn cael eu hyrwyddo'n aml a thrwy sianeli niferus. Mae'r angen i reoli perthnasoedd â rhanddeiliaid allweddol yn rhagweithiol wedi'i ymgorffori yn y Bwrdd Iechyd. Mae arweinwyr y Bwrdd Iechyd ac arweinwyr clinigol wedi cael hyfforddiant cyfryngau at lefel gyson ac uchel, ac maen nhw'n hyderus i weithio gyda'r cyfryngau i hyrwyddo gwaith y Bwrdd Iechyd. Mae'r defnydd o gyfryngau cymdeithasol i hyrwyddo gwaith meysydd gwasanaeth a'r timau arweinyddiaeth wedi'i ymgorffori yn y Bwrdd Iechyd.	Mae straeon newyddion cytbwys yn cael eu rheoli'n rhagweithiol. Mae straeon newyddion cytbwys wedi'u hymgorffori yn y ffordd mae'r Bwrdd Iechyd yn gweithredu, gan ddefnyddio sianeli cyfathrebu niferus. Mae'r angen i reoli perthnasoedd â rhanddeiliaid allweddol yn rhagweithiol wedi'i ymgorffori yn y Bwrdd Iechyd, ynghyd â rhannu gwybodaeth yn ffurfiol ac yn anffurfiol. Mae arweinwyr y Bwrdd Iechyd ac arweinwyr clinigol wedi cael hyfforddiant cyfryngau at lefel gyson ac uchel, ac maen nhw'n hyderus i weithio gyda'r cyfryngau i hyrwyddo gwaith y Bwrdd Iechyd. Bydd arweinwyr ac arweinwyr clinigol yn defnyddio'r cyfryngau yn

			gwasanaeth a'r tîm arweinyddiaeth.	gwasanaeth a'r tîm arweinyddiaeth.		rhagweithiol yn eu gwaith o ddydd i ddydd, lle a phryd y bo hynny'n briodol. Mae'r defnydd o gyfryngau cymdeithasol i hyrwyddo gwaith meysydd gwasanaeth a'r timau arweinyddiaeth wedi'i ymgorffori yn y Bwrdd Iechyd ac yn cefnogi mecanweithiau cyfathrebu.

Darparwyd y cyfeiriad at "arweiniad ar gyfer Ymgysylltu ac Ymgynghori ar newidiadau i Wasanaethau Iechyd" yn garedig gan CHC.

Deilliannau disgwyliedig ymgysylltiad TIIF:

1. Rhoddir digon o ffocws ac adnoddau ar gasglu, dadansoddi, monitro a dysgu o brofiad y defnyddiwr / claf ar draws y sefydliad. Rhaid i hyn gynnwys defnyddio adborth amser real gan ddefnyddwyr / cleifion.
2. Datblygwyd gweledigaeth a strategaeth gydag ymgysylltiad gweithredol staff, partneriaid, sefydliadau a defnyddwyr gwasanaeth.
3. Cyfranogiad ac ymgysylltiad cyhoeddus effeithiol, wedi'i fesur trwy CIC ac arolygon partner.
4. Mae rhanddeiliaid allanol yn disgrifio perthnasoedd gyda'r bwrdd iechyd fel rhai cadarnhaol ac mae tystiolaeth o well cydweithio a pherchnogaeth ar draws y system gyfan, gan gynnwys y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol a Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus.
5. Tystiolaeth o ymgysylltiad gwell â staff wedi'i fesur trwy arolygon ac adborth gan undebau llafur.
6. Datblygu a gweithredu Fframwaith Gwerthoedd ac Ymddygiad sydd wedi'i ddatblygu gyda staff, sy'n cael ei adolygu'n rheolaidd, ac sy'n cynnwys rhaglen ymgysylltu glir ar gyfer ei weithredu.